# YR ATODLEN

Rheoliad 2

## *YR WYBODAETH SYDD I'W DARPARU GAN YR AWDURDODAU ADDYSG LLEOL*

**1.** Esboniad ar yr elfen honno o'r ddarpariaeth addysgol arbennig ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig (ond sydd heb ddatganiadau) y mae'r awdurdod addysg lleol yn disgwyl fel rheol iddi gael ei thalu o gyfran yr ysgolion a gynhelir o'r gyllideb ac ar yr elfen honno o'r ddarpariaeth honno y mae'r awdurdod yn disgwyl fel rheol iddi gael ei thalu gan yr awdurdod o'r arian sydd ganddo yn ganolog.

**2.** Nodau bras polisi'r awdurdod addysg lleol mewn perthynas â phlant ag anghenion addysgol arbennig ynghyd â gwybodaeth am y camau y mae'r awdurdod yn eu cymryd—

(a) i hybu safonau addysgol uchel i blant ag anghenion addysgol arbennig;

(b) i annog plant ag anghenion addysgol arbennig i chwarae rhan gyflawn yn eu hysgol a'u cymuned ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu haddysg ac i wneud dewisiadau amdani;

(c) i annog yr ysgolion yn eu hardal i rannu eu harferion wrth wneud darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig; ac

(ch) i weithio gyda chyrff statudol a gwirfoddol eraill i ddarparu cymorth i blant ag anghenion addysgol arbennig.

**3.** Y trefniadau cyffredinol a wneir gan yr awdurdod addysg lleol, gan gynnwys unrhyw gynlluniau, amcanion a graddfeydd amser ar gyfer—

(a) adnabod plant yn eu hardal sydd ag anghenion addysgol arbennig;

(b) monitro derbyniadau plant ag anghenion addysgol arbennig (p'un a oes gan y plant hyn ddatganiad neu beidio) i'r ysgolion a gynhelir yn eu hardal;

(c) trefnu asesiadau anghenion addysgol plant yn unol ag adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 yn ardal yr awdurdod addysg lleol, gan gynnwys unrhyw brotocolau lleol ar gyfer gwneud hyn;

(ch) trefnu gwneud a chynnal datganiadau yn eu hardal gan gynnwys unrhyw brotocolau lleol ar gyfer gwneud hyn;

(d) rhoi cymorth i'r ysgolion yn eu hardal mewn perthynas â gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig;

(dd) archwilio, cynllunio, monitro ac adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig yn eu hardal, yn gyffredinol ac mewn perthynas â phlant unigol;

(e) sicrhau hyfforddiant, cyngor a chymorth i'r staff sy'n gweithio yn eu hardal gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig; ac

(f) adolygu a diweddaru'r trefniadau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) i (e).